# Canllawiau Statudol: Strategaethau Caffael

## Beth yw Strategaeth Gaffael?

1. Mae Strategaeth Gaffael yn nodi sut mae Awdurdod Contractio Cymreig ("Awdurdod Contractio"), neu grŵp o awdurdodau, yn bwriadu cynnal caffael cyhoeddus. Gall hyn gynnwys unrhyw agwedd ar sut mae caffael yn cael ei gynnal, ond rhaid iddo gynnwys sut mae ei waith caffael yn bodloni gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[1] ("Deddf SPPP").

2. Bydd cyhoeddi strategaeth gaffael yn caniatáu i Awdurdodau Contractio ddangos sut maent yn bwriadu gweithredu gofynion y ddeddfwriaeth, monitro a ydynt yn bodloni nodau'r Ddeddf SPPP a chynnwys gwybodaeth arall, er enghraifft am sut y gallai cydweithio ag Awdurdodau Contractio eraill ddod â buddion i'r awdurdod, ei gyflenwyr a'r gymuned ehangach.

3. Bydd hefyd yn caniatáu i gyflenwyr ddeall beth sy'n ofynnol ganddynt i helpu i gyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol, a sut y bydd yr Awdurdod Contractio yn rhyngweithio â nhw i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.

## Beth yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu datblygiad strategaeth gaffael?

4. Mae Pennod 2 'Y Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol' yn Rhan 3 o'r Ddeddf SPPP yn trafod y gofyniad i gyhoeddi strategaeth gaffael:

    a. **Adran 38: Strategaeth Gaffael.** Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Contractio baratoi strategaeth gaffael sy'n nodi sut mae'n bwriadu cynnal caffael cyhoeddus. Mae'n amlinellu yn adran 38(2) pa ffactorau sydd angen eu hystyried pan ysgrifennir Strategaeth Gaffael. Rhaid i'r Strategaeth ddatgan sut y bydd yr awdurdod yn cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol yn unol ag adran 24(1), sut y bydd yn cyflawni ei Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol (Amcanion SRP), a'r prosesau y bydd ganddo ar waith i sicrhau ei fod yn gwneud taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn brydlon a dim hwyrach na 30 o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno anfoneb (neu hawliad tebyg).

       Mae adran 38(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddrafftio rheoliadau i ddiwygio adran 38(2), ac mae adran 38(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Contractio adolygu ei strategaeth gaffael bob blwyddyn ariannol, diwygio fel y bo'n ofynnol a'i chyhoeddi (ac unrhyw ddiwygiadau) cyn gynted â

[1] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

phosibl wedi hynny. Caiff Awdurdodau Contractio hefyd baratoi Strategaeth Gaffael ar y cyd rhwng dau awdurdod neu fwy (adran 38(5)). Nid yw'n ofynnol i sefydliadau sy'n penderfynu cyhoeddi Strategaeth ar y cyd gyhoeddi un ar wahân.

## Cynnwys Strategaeth Gaffael

5. Mae adran 38(2) o'r Ddeddf SPPP yn nodi bod yn rhaid i Strategaeth Gaffael drafod y materion canlynol:

    a. sut y bydd yr Awdurdod (neu'r Awdurdodau) Contractio yn cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn unol ag adran 24(1);
    b. sut mae'r Awdurdod (neu'r Awdurdodau) Contractio yn bwriadu cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei Amcanion SRP pan fydd yn cynnal caffael cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw gontract rhagnodedig;
    c. sut mae'r Awdurdod (neu'r Awdurdodau) Contractio yn bwriadu gwneud taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn brydlon a dim hwyrach na 30 diwrnod (oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol) ar ôl cyflwyno anfoneb (neu hawliad tebyg).

6. Gall fod yn ddefnyddiol strwythuro'r Strategaeth Gaffael gydag adrannau sy'n cwmpasu pob un o'r tri chategori o wybodaeth uchod. Gellir cynnwys adrannau eraill i gwmpasu agweddau eraill ar gaffael a gynhelir gan yr awdurdod neu'r awdurdodau.

### Cynnal caffael cymdeithasol gyfrifol

7. Mae canllawiau ar wahân ar gynnal caffael cymdeithasol gyfrifol, ac ar osod Amcanion SRP, ar gael, wedi'u cynllunio i helpu Awdurdodau Contractio i ddeall yr hyn sydd ei angen. Mae'r Strategaeth Gaffael, ar y llaw arall, yn caniatáu i bob awdurdod, neu grŵp o awdurdodau, gyfathrebu sut y bydd yn rhoi'r dyletswyddau hyn ar waith.

8. Mae caffael cymdeithasol gyfrifol yn berthnasol i bob gwaith caffael, nid dim ond y contractau "rhagnodedig" mwy. Felly, dylai Strategaeth Gaffael a gyhoeddir nodi sut mae'r awdurdod (neu'r awdurdodau) yn bwriadu cyflawni hyn mewn ffordd gymesur. Mae'r canllawiau caffael cymdeithasol gyfrifol yn darparu rhai syniadau ac enghreifftiau.

9. Mae Strategaeth Gaffael yn Neddf SPPP yn ddogfen y mae'n rhaid ei chyhoeddi. Nid yw'n rhywbeth sy'n ofynnol ar gyfer pob gwaith caffael unigol. Mae'r Strategaeth Gaffael wedi'i gosod ar lefel sefydliadol, neu gan grwpiau o sefydliadau, gan amlinellu sut y bydd yr Awdurdod Contractio, neu'r Awdurdodau, yn cynnal gwaith caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol (adran 38(2)). Wrth gaffael contract cyhoeddus, rhaid i awdurdodau ystyried eu Strategaethau a defnyddio'r hyn sy'n berthnasol ac sy'n gymesur â'r contract penodol hwnnw, fel y gall weithredu ei Strategaeth yn llwyddiannus ar gyfer pob gwaith caffael cyhoeddus.

## Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni Amcanion SRP

10. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Contractio osod Amcanion SRP. Efallai y bydd yn ddefnyddiol gweithio ar y rhain yn gyntaf cyn datblygu'r Strategaeth Gaffael. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol cyhoeddi Amcanion SRP mewn dogfen ar wahân ochr yn ochr â'r strategaeth gaffael. Mae hyn yn arbennig o wir os yw sawl sefydliad yn cyhoeddi strategaeth gaffael ar y cyd, o ystyried bod yn rhaid i bob Awdurdod Contractio unigol gyhoeddi ei Amcanion SRP ei hun.

11. Mae Amcanion SRP yn berthnasol i bob gwaith caffael, ond mae'r rhwymedigaeth i "gymryd pob cam rhesymol" i gyflawni Amcanion SRP yn berthnasol i "gontractau rhagnodedig" yn unig (adran 24(5)), sy'n cynnwys contractau adeiladu mawr, contractau allanoli gwasanaethau, a chontractau rhagnodedig fel y cânt eu diffinio mewn rheoliadau.

12. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth ddogfennu sut mae'r Awdurdod (neu'r Awdurdodau) Contractio yn bwriadu cymryd pob cam rhesymol i ddarparu ei Amcanion SRP wrth gyflawni contractau rhagnodedig. Felly, bydd angen cynnwys rhagor o wybodaeth am bob un o'r Amcanion SRP y cytunwyd arnynt, gan nodi rhai o'r camau a gymerir i gyflawni pob un.

13. Mae'r "camau rhesymol" gwirioneddol y bydd angen eu cymryd i gyflawni Amcanion SRP yn debygol o amrywio yn dibynnu ar y math o gaffael sy'n cael ei wneud, ac felly ni ellir disgwyl i Awdurdodau Contractio restru pob cam posibl a gymerir ym mhob cyd-destun posibl.

14. Fodd bynnag, bydd yn bosibl nodi camau allweddol y bydd angen eu cymryd i gyflawni pob Amcan SRP ar gyfer contractau rhagnodedig. Gallai'r camau hyn gynnwys casglu rhai metrigau y bydd Awdurdod (neu Awdurdodau) Contractio yn eu defnyddio i fesur llwyddiant wrth gyflawni Amcanion SRP, er enghraifft ar gyfran y gwariant gyda busnesau lleol.

15. Wrth ddatblygu "camau" gall fod yn ddefnyddiol adolygu contractau cyhoeddus cyfredol yng nghyd-destun Amcanion SRP y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, wrth ddatblygu manyleb ar gyfer contract arlwyo, gall awdurdod contractio nodi camau y gellir eu cymryd er mwyn:

    (a) cynyddu cyrchu bwyd lleol cynaliadwy, gan gefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol a Chymreig pan fo'n briodol, cefnogi economïau gwledig a chyflogaeth deg, wrth iddynt hefyd ystyried effeithiau amgylcheddol a gwella tarddiad ac olrhain bwyd.

    (b) lleihau ei effaith wrth gaffael bwyd yn fyd-eang trwy fonitro risg, dyledus ddiwydrwydd, a defnyddio ardystiadau megis Masnach Deg ac RSPO (Bord Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy). Gall y camau a nodwyd gyfrannu i un neu ragor o Amcanion SRP

16. Gallai camau rhesymol o'r fath, pan fo'n gysylltiedig ag Amcanion SRP perthnasol, gynnwys ymgysylltu cyn y farchnad cyn cyhoeddi hysbysiad tendr, neu gynnwys cymalau penodol o fewn contract cyhoeddus a fydd yn cynorthwyo Awdurdod Contractio i gyflawni gwelliannau ar sail nodau llesiant ac Amcanion SRP, fel gwella colofn llesiant cymdeithasol a llesiant diwylliannol, trwy fynnu bod y cyflenwr llwyddiannus yn cynnwys grwpiau yr effeithir arnynt gan dargedau'r contract, er enghraifft pobl ifanc.

17. Er dylai'r Strategaeth Gaffael ddogfennu'r prif "gamau rhesymol" sy'n ymwneud â phob Amcan SRP, bydd angen i Awdurdodau Contractio gadw cofnodion mewnol o gamau / camau penodol y maent yn eu cymryd ar gyfer contractau rhagnodedig. Mae hyn oherwydd bydd yn rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth hon mewn adroddiadau blynyddol (adran 39(2)(b)). Bydd hefyd yn ddefnyddiol cadw cofnod rhag ofn y bydd unrhyw adolygiad, archwiliad neu her yn y dyfodol.

18. Mae'r tabl isod yn rhoi un enghraifft bosibl o sut y gellid dogfennu camau yn erbyn Amcan SRP ffuglennol. Mae'r enghraifft hon yn cynnwys disgrifiad o'r camau a gymerwyd ar wahanol gamau o'r cylch caffael. Yn dibynnu ar Amcan SRP a'r cyd-destun, efallai y byddai'n well rhestru camau nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd yn y modd hwn, neu eu drafftio ar ffurf fyrrach.

19. Ni ddylid ystyried hyn fel ymarfer rhy fiwrocrataidd a chyfyngol. Y peth pwysig yw bod pob sefydliad neu grŵp o sefydliadau sy'n datblygu Amcanion a strategaethau SRP yn meddwl trwy'r camau gweithredu neu'r camau y bydd eu hangen i gyflawni pob Amcan SRP. Faint o'r rhain sy'n gamau gweithredu

cyffredinol a allai fod yn berthnasol i bob contract neu'r rhan fwyaf o gontractau rhagnodedig? Dylid cynnwys crynodeb o'r rhain yn y Strategaeth Gaffael.

20. Mae'r dyletswyddau SRP yn rhoi pwyslais sylweddol ar reoli contractau. Mae hyn yn wir yn benodol am gaffael gwasanaethau adeiladu ac allanoli, fodd bynnag, mae angen rheoli contract yn dda ar gyfer pob gwaith caffael. Dylid cynnwys camau gweithredu a chamau sy'n ymwneud â rheoli contractau yn y strategaeth.

| **Strategaeth Gaffael** | |
|---|---|
| **Amcan SRP** | Datblygu gweithlu mwy medrus a phrofiadol |
| **Nod(au) Llesiant** | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy’n fwy cyfartal |
| **Colofn(au) Llesiant** | Economaidd |
| **Cam Rhif** | **Crynodeb o’r Cam** |
| 1.) | Bydd y cam cynllunio cyn caffael yn cynnwys ystyried cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. |
| 2.) | Os yw'n briodol, bydd hysbysiadau caffael a dogfennaeth dendro yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau |
| 3.) | Bydd cymalau contract safonol yn cael eu cynnwys i sicrhau bod y rhwymedigaeth ar gyfer prentisiaethau neu brofiad gwaith yn cael ei bodloni, ynghyd â metrigau i'w defnyddio i fesur llwyddiant. |
| 4.) | Yn ystod y contract bydd llwyddiant y prentisiaethau a/neu brofiad gwaith yn cael ei fonitro gan ddefnyddio'r metrigau y cytunwyd arnynt. Gall hyn gynnwys cyfweliadau â phrentisiaid neu arolygon yn ystod eu prentisiaeth neu ar ôl hynny. Bydd barn y cyflenwr hefyd yn cael ei geisio. |

## Taliad prydlon

21. Mae adran 38(2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i Strategaeth Gaffael:

‘ddatgan sut mae'r awdurdod yn bwriadu gwneud taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn brydlon ac oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol, dim mwy na 30 diwrnod ar ôl cyflwyno anfoneb (neu hawliad tebyg).’

22. Dylai Awdurdodau Contractio gynnwys eu polisi ar daliadau prydlon, gan esbonio sut y byddant yn sicrhau bod taliadau i gyflenwyr yn cael eu gwneud yn brydlon o fewn y gofyniad 30 diwrnod. Gallai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Brosesau anfonebu electronig,
- Cymorth i fentrau bach a chanolig (BBaChau) i symud i anfonebu electronig a/neu hawliadau talu electronig,
- Sut y bydd yr awdurdod yn cofnodi ac yn monitro ei daliadau o dan gontractau cyhoeddus e.e. derbyn anfonebau, cadarnhad a gytunwyd ar y rhain ai peidio, a gawsant eu llofnodi gan yr unigolion awdurdodedig perthnasol, faint o daliadau a wnaed ar amser, ac ar gyfer y rhai na thalwyd mewn pryd, y rhesymau pam ac ati.
- Cyfrifon Banc Prosiect

23. Anogir awdurdodau i ddefnyddio systemau anfonebu electronig i'w helpu i dalu anfonebau (neu hawliad tebyg) o fewn 30 diwrnod ar ôl eu derbyn. Os yw'r rhain ar waith, dylid cynnwys manylion y system anfonebu electronig a'r broses archwilio yn y strategaeth. Gall hyn fod â'r fantais ychwanegol o gynorthwyo cyflenwyr (yn enwedig BBaChau) i symud i anfonebu electronig.

## Cyfrifon Banc Prosiect

24. Pan fo'n bosibl, anogir Awdurdodau Contractio i ddefnyddio cyfrifon banc prosiect i hwyluso taliadau teg a phrydlon i gyflenwyr ledled y gadwyn gyflenwi sector cyhoeddus. Mae cyfrif banc prosiect yn gyfrif banc wedi'i neilltuo gyda statws ymddiriedolaeth sydd â'r unig bwrpas o wneud taliadau o dan gontract penodol. Maent wedi'u cynllunio i leddfu'r baich ar BBaChau o aros amseroedd hir am daliad, gan niweidio llif arian mewn cadwyni cyflenwi.

25. Ar gyfer contractau adeiladu mawr, bydd y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os nad yw'n bwriadu cynnwys cymalau sy'n mynnu defnyddio cyfrif banc prosiect neu gyfwerth.

26. Mae cyfrif banc prosiect yn caniatáu taliadau ar yr un pryd i'r prif gontractwr a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi, gan alluogi talu'n gyflymach (fel arfer rhwng 3 a 5 diwrnod) o'i gymharu â'r dulliau talu arferol a ddefnyddir i dalu is-gontractwyr, a all gymryd rhwng 60 a 90 diwrnod neu fwy.

27. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon banc y prosiect (eu pwrpas, eu cefndir a sut y gellir eu defnyddio ac ati), dylai Awdurdodau Contractio adolygu'r WPPN canlynol:
    - WPPN 010: Cyfrifon Banc Prosiect

- WPPN 011: Canllawiau ar gyfer defnyddio polisi cyfrif banc prosiect Llywodraeth Cymru

28. Mae'r rhain ar gael drwy'r brif dudalen ar gyfer WPPN: Nodiadau polisi caffael.

### Deunydd arall i'w gynnwys mewn strategaethau caffael

29. Nid oes unrhyw ofynion pellach ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn Strategaeth Gaffael. Fodd bynnag, gall awdurdod neu grŵp o awdurdodau hefyd ddogfennu materion eraill, er enghraifft yn ymwneud â blaenoriaethau sefydliadol eraill, sut mae technoleg yn cael ei defnyddio yn ystod caffael, unrhyw drefniadau cydweithredol ar gyfer caffael gydag awdurdodau eraill, unrhyw drefniadau llywodraethu neu oruchwylio, neu fecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr a darpar gyflenwyr.

30. Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at gynnwys sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf hon; ni ddylid ei ddarllen i awgrymu bod cynnwys arall mewn Strategaethau Caffael yn llai pwysig.

31. Wrth i Strategaethau Caffael gael eu paratoi, dylai Awdurdodau Contractio ystyried deddfwriaeth berthnasol arall a allai fod yn berthnasol i'r sector y maent yn caffael nwyddau, gwasanaethau neu waith ynddo. Yn ogystal â Deddf Caffael 2023, byddai hyn hefyd yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG).

## Ymgynghoriad ar y Strategaeth Gaffael

32. Er nad yw ymgynghori ar ddatblygu Strategaeth Gaffael yn orfodol, mae adran 43(2)(g) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Contractio ynghylch ymgynghori wrth baratoi strategaeth.

33. Er bod angen adolygiad blynyddol o Strategaeth Gaffael dan Ddeddf SPPP, nid oes angen i hyn bob amser gynnwys ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler Adran 24(2)) yn Neddf WFG yn nodi pum ffordd o weithio, ac yn eu plith gynnwys neu gydweithio â rhanddeiliaid. Cynnwys / cydweithio â rhanddeiliaid wrth ddatblygu Strategaeth yw'r hyn a olygir gan ymgynghori yn y cyd-destun hwn.

34. Dylai Awdurdodau Contractio ddechrau cynnwys rhanddeiliaid ar ddechrau natblygiad y strategaeth, ar ôl penderfynu â phwy y dylent ymgysylltu. Gall hyn gynnwys staff mewnol sy'n ymwneud â chaffael a chomisiynu, y rhai sy'n cael eu

cefnogi gan staff caffael proffesiynol i gyflawni prosiectau (boed yn waith, nwyddau neu wasanaethau), a'r tîm cyllid, neu dimau yn achos strategaeth gaffael ar y cyd.

35. O ystyried bod y ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â chyflawni nodau llesiant, mae'n debygol y bydd unigolion eraill yn yr Awdurdod Contractio neu'r awdurdodau sydd â diddordeb, er enghraifft gyda rolau mewn datblygu busnes, cydraddoldeb neu ddiogelu'r amgylchedd.

36. Mae adran 16 o Ddeddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ymgysylltu â'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'i staff wrth gynnal datblygu cynaliadwy, a all gynnwys gweithgarwch caffael.

37. Gall rhanddeiliaid allanol fod yn gyflenwyr cyfredol a darpar gyflenwyr yn y dyfodol, defnyddwyr gwasanaeth, neu eraill yr effeithir arnynt gan yr awdurdod wrth gymryd camau i gyflawni'r nodau llesiant. Er enghraifft, pan fydd yr awdurdod yn ystyried sut y bydd y Strategaeth yn mynd i'r afael â llesiant economaidd a chymdeithasol drwy weithgareddau fel prentisiaethau, efallai y byddai'n dymuno cynnwys busnesau wrth ystyried eu gallu i weithredu prentisiaethau, yn ogystal â sefydliadau sy'n gyfrifol am gefnogi prentisiaethau. Neu, wrth ystyried sut y bydd y Strategaeth yn cwmpasu gwelliannau amgylcheddol, er enghraifft, ail-gartrefu bywyd gwyllt, gall yr awdurdod geisio cysylltu â'r grwpiau amgylcheddol priodol i drafod.

38. Argymhellir y dylid cynnwys a thrafod gydag undebau llafur, a rhanddeiliaid pwysig eraill (megis elusennau arbenigol lle bo hynny'n berthnasol, neu randdeiliaid ariannol ac ati) cyn gynted â phosibl, a sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu drwy gydol y broses ddatblygu'r Strategaeth. Mae gan y dull hwn y potensial i gryfhau unrhyw strategaeth sy'n deillio o hynny, gan sicrhau y clywir lleisiau gwerthfawr (er enghraifft, lleisiau gweithwyr neu aelodau agored i niwed o gymdeithas) ac yr eir i'r afael â hwy.

## Cymeradwyo ac Adolygu'r Strategaeth Gaffael

39. Mae adran 38(4) o'r Ddeddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio:

'(a) adolygu ei strategaeth gaffael bob blwyddyn ariannol,

(b) gwneud unrhyw ddiwygiadau y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol o bryd i'w gilydd, a
(c) chyhoeddi'r strategaeth, ac unrhyw ddiwygiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei pharatoi neu ei diwygio.'

40. Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, dylai Awdurdodau Contractio sefydlu'r prosesau y bydd yn eu rhoi ar waith i ddatblygu'r strategaeth (gan gynnwys ymgynghori), adolygu'r strategaeth yn flynyddol (gweler Adran 46 o Ddeddf SPPP am ddehongli "blwyddyn ariannol"), diweddaru a llofnodi unrhyw ddiwygiadau, a chyhoeddi a chyfathrebu'r strategaeth cyn gynted â phosibl. Dylai Awdurdodau Contractio ddogfennu'r broses hon, er enghraifft trwy greu rhestr wirio.

41. Mae'r ffactorau a awgrymir i'w hystyried wrth greu ac adolygu Strategaeth Gaffael fel a ganlyn, fodd bynnag, anogir Awdurdodau Contractio i nodi'r dull a fydd yn gweithio orau iddynt:

a. Nodi rhanddeiliaid perthnasol, cynllunio'r broses gyfranogi a sut y bydd hyn yn cyfrannu i'r broses ddrafftio,
b. Cytuno ar y bobl a fydd yn adolygu'r strategaeth gaffael bob blwyddyn ariannol[2], gan gynnwys nodi pa randdeiliaid mewnol ac allanol y gallai fod eu hangen i adolygu'r strategaeth,
c. Cytuno ar lefel y gymeradwyaeth sydd ei angen i lofnodi fersiwn derfynol y strategaeth gaffael,
d. Os oes angen newidiadau, penderfynu pwy sy'n rhaid cytuno ar y diwygiadau hyn yn y strategaeth gaffael a'u llofnodi,
e. Cytuno ar sut y bydd y strategaeth gaffael yn cael ei chyhoeddi a'i chyfleu i'r holl randdeiliaid perthnasol (mewnol ac allanol),
f. Cadarnhau'r grŵp a fydd yn monitro cyflawni/gweithredu'r strategaeth gaffael ar draws contractau caffael cyhoeddus yr awdurdod,
g. Egluro sut y bydd rheolaeth fersiwn yn cael ei gynnal gan gynnwys pwy fydd yn gyfrifol am gadw cofnod o unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, er mwyn sicrhau mai'r fersiwn sydd ar gael ac sydd i'w chyhoeddi yw'r fersiwn ddiweddaraf a gymeradwywyd (wedi'i lofnodi),
h. Trefnu adolygiad o'r prosesau uchod i sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o dan Ddeddf SPPP.

42. Wrth gynnal adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Gaffael, cynghorir Awdurdodau Contractio i gynnwys rhanddeiliaid pwysig gan gynnwys undebau llafur,

[2] Mae adran 46 (Dehongliad cyffredinol) o Ddeddf SPPP yn diffinio'r flwyddyn ariannol fel a ganlyn: 'Yn y Ddeddf hon– ystyr "blwyddyn ariannol" ("financial year") yw— (a) mewn perthynas â chorff cyhoeddus ac eithrio Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG, y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth; (b) mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y gorchymyn a wnaed o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) sy'n sefydlu'r Bwrdd; (c) mewn perthynas ag ymddiriedolaeth y GIG, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y gorchymyn a wnaed o dan adran 18 o'r Ddeddf honno sy'n sefydlu'r ymddiriedolaeth;'

rhanddeiliaid ariannol, elusennau arbenigol, a rhanddeiliaid mewnol eraill i sicrhau bod gwahanol safbwyntiau yn cael eu hystyried. Byddai hyn yn rhoi rhagor o hyder i Awdurdod Contractio yn effeithiolrwydd y strategaeth.

43. Dylai'r adolygiad hwn ystyried materion megis perfformiad yr Awdurdod Contractio o ran ei Amcanion SRP, adolygiad o'r adborth a dderbyniwyd gan gyflenwyr a rhanddeiliaid eraill, a dadansoddiad o ddata adrodd blynyddol. Dylai adolygiad o ddogfennau a phrosesau perthnasol eraill, megis Amcanion SRP cyhoeddedig neu weithdrefnau rheoli contractau, ddilyn o unrhyw newidiadau yn y Strategaeth Gaffael

## Strategaeth gaffael ar y cyd

44. Caiff Awdurdodau Contractio hefyd baratoi Strategaeth Gaffael ar y cyd rhwng dau awdurdod neu fwy (adran 38(5)). I wneud hynny, rhaid i'r Awdurdodau Contractio weithio yn gyntaf tuag at gytuno ar yr un setiau o Amcanion SRP neu setiau tebyg iawn, a fydd yn eu helpu i fodloni'r rhwymedigaethau y maent wedi'u nodi trwy ymgysylltu’n gynnar.

45. Mae'n debygol y bydd gan Awdurdodau Contractio unigol heriau gwahanol i'w hwynebu yn eu hardaloedd, gydag, er enghraifft, un awdurdod dan fwy o bwysau i wella llesiant cymdeithasol, gydag un arall yn canolbwyntio mwy ar ffactorau economaidd ac amgylcheddol.

46. Felly, cyn penderfynu cyhoeddi strategaeth ar y cyd, dylai'r Awdurdodau Contractio dan sylw ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau a'r pwysau amrywiol rhwng yr Awdurdodau Contractio. Bydd angen i hyn gynnwys ystyried lle mae gorgyffwrdd, sut y gall dull ar y cyd helpu i wella cyfraniad tuag at y nodau llesiant, p'un a ellir cyflawni set debyg neu union yr un fath o Amcanion SRP, ac a fydd "camau" cyffredin, er enghraifft, yn cynnwys unrhyw fetrigau a gymhwysir i fesur cyflawniad yn eu herbyn.

47. Wrth ymgysylltu ar y Strategaeth Gaffael ar y cyd, dylai sianeli a pholisïau cyfathrebu clir fod ar waith rhwng yr holl Awdurdodau Contractio, gyda chyfarfodydd rheolaidd i drafod y cynnwys, y dull a'r ymateb i unrhyw ymarfer ymgysylltu neu gynnwys a gynhelir, a chytundeb ar y broses gymeradwyo derfynol ar gyfer y Strategaeth ar y cyd.

48. Dylid cytuno ar y broses gymeradwyo o'r dechrau, a'r strategaeth ar y cyd wedi'i llofnodi gan yr holl bartïon. Rhaid i'r strategaeth sy'n deillio o hyn gael ei darparu gan bob Awdurdod Contractio trwy eu sianeli cyfathrebu (e.e. e-bost) a thrwy eu hadnoddau (megis gwefan yr awdurdod).

49. Os yw Awdurdod Contractio yn cyhoeddi ei Strategaeth Gaffael ei hun, ac nid Strategaeth ar y cyd, efallai y bydd yn dymuno cyfuno ei Amcanion Caffael cyhoeddedig mewn un ddogfen â'i Strategaeth.

## Cyflwyno'r Strategaeth Gaffael

50. Bydd y Strategaeth Gaffael derfynol wedi'i chyhoeddi ar gael nid yn unig i Awdurdodau Contractio eraill, ond hefyd i ddarpar gyflenwyr a'r cyhoedd a allai adolygu'r ddogfen i weld sut mae'r Awdurdod Contractio yn bwriadu cyflawni ei waith caffael a chyflawni ei rwymedigaethau ar gyflawni caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.

51. Wrth ddatblygu eu Strategaeth Gaffael, ac wrth gyflwyno'r fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol wedi'u cwblhau, dylai Awdurdodau Contractio anelu at ddefnyddio iaith blaen, i fod mor gryno â phosibl a chanolbwyntio ar gyfathrebu'n glir. Dylid dilyn safonau'r awdurdod ar hygyrchedd hefyd, yn ogystal â'r safonau Cymraeg perthnasol.